**EITEM AR YR AGENDA: 8**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**9 Mai 2016**

**CYNLLUN TREIALU CYD-YMATEB**

**Adroddiad gan Richard Fairhead, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am hynt a chanfyddiadau cychwynnol y cynllun treialu cyd-ymateb sy'n cael ei gynnal gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC).

## Cefndir

2. Yn y cyd-destun hwn, mae 'cyd-ymateb' yn derm sy'n cael ei ddefnyddio am argyfwng meddygol y mae GTAGC ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (YGAC) yn ymateb iddo ill dau.

3. Ym mis Mehefin 2015, bu i GTAGC wirfoddoli i gymryd rhan yn y cynlluniau cenedlaethol i dreialu cyd-ymateb a derbyniwyd y cynnig gan Gyd-Gyngor yr NJC ddechrau mis Awst 2015.

4. Nodwyd y byddai'r cynllun treialu'n rhedeg tan 30 Mehefin 2016, a byddai gwerthusiad llawn yn cael ei gynnal wedi hynny.

## Gwybodaeth

5. Bu GTAGC ac YGAC yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu'r egwyddorion ynglŷn â'r modd y byddai'r cynllun treialu'n gweithio yng Ngogledd Cymru, a chytunwyd ar y canlynol:

   a. rhaid i holl staff GTAGC a oedd yn cymryd rhan yn y cynllun treialu:
      i. bod wedi cael eu hyfforddi i'r lefel gywir,
      ii. bodloni gwiriad DBS,
      iii. cael cwrs o frechiadau'n erbyn hepatitis;
   b. byddai'r cynllun treialu'n rhedeg o saith gorsaf ledled y rhanbarth, fel bod modd i'r tair system dyletswydd sy'n cael eu gweithredu gan GTAGC fod yn rhan o'r cynllun;


   c. ni fyddai GTAGC ond yn ymateb i alwadau a nodir gan YGAC fel galwadau COCH 1 – sef argyfyngau meddygol sy'n bygwth bywyd a dim ond yn cynnwys:

      i. trawiad ar y galon,
      ii. ataliad y galon,
      iii. gwaedu difrifol,
      iv. ataliad anadlol,
      v. personau anymwybodol / anymatebol;

   d. Dim ond mewn ardal a ragnodwyd ymlaen llaw y byddai GTGAC yn ymateb ynddi, a hynny o gwmpas gorsafoedd y cynllun treialu, a byddent yn ymateb dim ond os na fyddai hynny'n effeithio ar y gofal tân.

6. Tynnodd un orsaf (Glannau Dyfrdwy – sef gorsaf shifftiau 24 awr) allan o'r cynllun treialu o ganlyniad i brinder gwirfoddolwyr; roedd y chwech arall, sef Caergybi a Bae Colwyn (gorsafoedd criw dydd) a Threffynnon, Llangollen, Dolgellau a Phwllheli (gorsafoedd y system RDS) – i gyd yn cyd-ymateb erbyn 4 Chwefror 2016.


7. Hyd at ddiwedd Mawrth 2016, mae GTGAC wedi cael 68 o geisiadau gan YGAC i gyd-ymateb i argyfyngau meddygol. Aeth GTGAC at gyfanswm o 23 o'r digwyddiadau hyn.




8. Dyma’r rhesymau dros beidio â mynd atynt

| | |
|---|---|
| a. dim criw ar gael | 25 |
| b. digwyddiad y tu allan i’r ardal y cytunwyd arni | 7 |
| c. criwiau wedi’u tynnu o ddyletswydd gan YGAC | 13 |

Mae’r tabl isod yn dangos y mathau o alwadau cyd-ymateb a wnaeth GTGAC.



9. Roedd y canlyniad i'r claf yn y 23 o ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt yn gadarnhaol mewn 52% ohonynt, gyda 12 o anafusion yn cael eu trin a naill ai'n cael eu rhyddhau yn y fan a'r lle neu'n cael eu cludo i'r ysbyty. Mae'r ganran hon yn cael ei ystyried gan YGAC yn eithriadol dda.

**Argymhelliad**

10. Bod yr Aelodau'n nodi'r wybodaeth a'r cynnydd a wnaed gan GTGAC wrth ddatblygu'r cynllun treialu, a'r canlyniadau cadarnhaol a gafwyd drwy ymyrraeth GTAGC mewn perthynas â 52% o'r anafusion.